

Arolygiad Anabledd Dysgu (dirybudd)

**Bwrdd Iechyd Prifysgol
Hywel Dda, Gwasanaeth
Anabledd Dysgu**

Dyddiad arolygu: 14 Gorffennaf 2016

Dyddiad cyhoeddi: 18 Hydref 2016

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copiâu o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Cyd-destun.....	3
3.	Crynodeb	4
4.	Canfyddiadau	5
	Ansawdd profiad y claf	5
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	11
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	16
5.	Y Camau Nesaf.....	19
6.	Methodoleg	20
	Atodiad A.....	22

1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar:

- Wneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cwblhaodd AGIC arolygiad o'r gwasanaeth anabledde dysgu ar 14 Gorffennaf 2016. Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau arolygydd AGIC ac adolygydd cymheiriaid anabledde dysgu.

Archwiliodd AGIC y modd yr oedd y gwasanaeth anabledde dysgu yn bodloni'r safonau gofal a amlinellir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015).

Ni roddir rhybudd cyn cynnal arolygiadau o wasanaethau anableddeau dysgu, ac rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Ansawdd profiad y defnyddwyr gwasanaeth – Rydym yn siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eiriolwyr er mwyn sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull arolygu.
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol – Rydym yn asesu i ba raddau mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o safon uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth – Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r diwylliant yn hwyluso gofal diogel ac effeithiol. Rydym hefyd yn ystyried sut y mae byrddau iechyd yn adolygu a monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn safonau a chanllawiau perthnasol.

Mae rhagor o fanylion am ein methodoleg ar gael yn Adran 6 yr adroddiad hwn.

2. Cyd-destun

Uned breswyl fach yw'r gwasanaeth, sy'n darparu gofal i hyd at bedwar defnyddiwr gwasanaeth ag anableddau dysgu. Roedd pedwar defnyddiwr gwasanaeth o'r ddau ryw yn byw yno ar adeg yr arolygiad.

Roedd gan y gwasanaeth dîm o staff a oedd yn cynnwys gweithwyr cymorth gofal iechyd. Roedd y rheolwr a oedd yn gyfrifol am reoli'r gwasanaeth o ddydd i ddydd yn absennol oherwydd salwch hirdymor ar adeg ein harolygiad. Dywedwyd wrthym fod tîm amlddisgyblaeth yn ymwneud â'r defnyddwyr gwasanaeth, a oedd yn cynnwys seiciatrydd, ffisiotherapydd, therapydd lleferydd ac iaith a therapydd galwedigaethol.

Yn dilyn ein trafodaethau â Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, cawn ar ddeall mai Cymdeithas Tai Sir Benfro sy'n gyfrifol am adeilad y gwasanaeth anabledd dysgu, ond y darperir gofal gan y gyfarwyddiaeth anabledd dysgu ac iechyd meddwl o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Felly, mae'r bwrdd iechyd o'r farn bod y gwasanaeth yn darparu gwasanaeth byw gyda chymorth ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth.

Oherwydd bod y trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau'n gymhleth, codwyd cwestiynau ynghylch y cofrestriad/rheoliadau priodol ar gyfer hyn a gwasanaethau preswyl anableddau dysgu eraill o fewn y bwrdd iechyd. Adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn, roedd trafodaethau'n cael eu cynnal rhwng y sefydliadau perthnasol ynghylch rheoleiddio'r gwasanaethau hyn.

3. Crynodeb

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd y gwasanaeth anabledau dysgu'n bodloni'r safonau gofal a amlinellir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015).

Ar y cyfan, nid oeddem yn gallu bod yn sicr bod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol. Ond roeddem o'r farn bod y staff yn ofalgar, yn gweithio'n galed ac yn ymroddedig i ddiwallu anghenion y cleifion. Roedd gennym bryderon sylweddol ynghylch y meysydd canlynol:

- Nid oedd y cynlluniau gofal a'r asesiadau risg cyfredol yn hygyrch oherwydd problemau Technoleg Gwybodaeth dros yr wythnosau diwethaf, felly nid oeddem yn gallu bod yn sicr bod iechyd, diogelwch a lles defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu diogelu
- Roedd y rheolwr yn absennol oherwydd salwch hirdymor ers diwedd mis Mai 2016, ac roedd y staff wedi bod heb gefnogaeth uniongyrchol gan reolwr ers hynny
- Roedd y lefelau o ran staffio wedi bod yn broblem droeon. Yn aml, byddai hyn yn golygu na fyddai digon o staff i ddiwallu anghenion y defnyddwyr gwasanaeth
- Roedd angen gwneud gwelliannau o ran rheoli meddyginiaethau, gan gynnwys rhoi arweiniad clir i'r staff ynghylch rhoi meddyginiaethau
- Nid oedd y trefniadau diogelu rhag tân yn ddigonol
- Roedd y lefelau staffio yn effeithio ar ansawdd bywyd y cleifion gan nad oedd modd cefnogi gweithgareddau dyddiol ac wythnosol i hybu eu lles yn aml.

Oherwydd difrifoldeb ein canfyddiadau yn ystod yr arolygiad hwn, gwnaethom fynegi ein pryderon i'r bwrdd iechyd ar ddiwrnod yr arolygiad ac mewn llythyr sicrwydd ar unwaith yn gofyn i'r bwrdd iechyd gymryd camau brys i roi sylw i'n canfyddiadau. Mae'r canfyddiadau hyn wedi'u nodi'n fanwl yn Atodiad A yr adroddiad hwn. Gwnaeth AGIC gyfarfod â chynrychiolwyr y bwrdd iechyd hefyd, er mwyn ceisio gwybodaeth ac eglurhad pellach ynglŷn â'r gwelliannau a wnaed ar unwaith.

Adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn, er bod AGIC wedi derbyn cynllun gweithredu gan y Bwrdd Iechyd yn amlinellu'r gwelliannau arfaethedig; ni oedd sicrwydd ynglŷn â manylion y camau gweithredu ac felly mae trafodaethau yn parhau i egluro'r materion hyn.

4. Canfyddiadau

Ansawdd profiad y claf

Er i ni weld bod y cleifion yn cael eu trin â pharch a charedigrwydd, gwelsom brinder staff a oedd yn cael effaith negyddol ar ansawdd bywyd y defnyddwyr gwasanaeth.

Roeddem yn bryderus o weld nad oedd y cynlluniau gofal na'r asesiadau risg cyfredol ar gael oherwydd problemau Technoleg Gwybodaeth. Oherwydd y pryderon yr oedd hyn yn ei godi o ran diogelwch y defnyddwyr gwasanaeth, gwnaethom ymdrin â'r broblem hon trwy ein proses sicrwydd ar unwaith.

Oherwydd cymhlethdod a lefel anghenion cyfathrebu'r defnyddwyr gwasanaeth yn y lleoliad hwn, nid oeddem yn gallu gofyn eu barn ynghylch y gwasanaeth. Gan fod yr arolygiad yn un dirybudd, nid oedd aelodau teulu na gofawyr (ar wahân i'r tîm staff) ar gael i siarad â ni.

O ganlyniad, mae ein casgliadau am ansawdd profiad y defnyddwyr gwasanaeth yn seiliedig ar dystiolaeth a welsom, arsylwadau a wnaethom yn ystod yr amser a dreuliom yn yr uned, a sgysiau a gafwyd ag aelodau staff ynghylch y ffordd maent yn cefnogi unigolion.

Cadw'n iach

Mae pobl wedi'u grymuso ac yn cael eu helpu i fod yn gyfrifol am eu hiechyd a'u lles eu hunain, ac mae gofawyr unigolion sy'n methu rheoli eu hiechyd a'u lles eu hunain yn cael eu cynorthwyo. Mae gwasanaethau iechyd yn gweithio mewn partneriaeth ag eraill i ddiogelu a gwella iechyd a lles pobl a lleihau anghydraddoldebau iechyd. (Safon 1.1)

Gwnaethom edrych ar sut y cynorthwywyd y defnyddwyr gwasanaeth i aros yn iach.

Dywedodd y staff wrthym y cofrestrwyd y defnyddwyr gwasanaeth yn yr uned â meddyg teulu lleol, a'u bod yn cael cymorth i fynd i'w weld yn ôl eu hanghenion a phan oeddent yn derbyn cais am archwiliad iechyd blynyddol.

Roedd gan y defnyddwyr gwasanaeth basbortau iechyd ar waith, pe baent yn cael eu derbyn i ysbyty. Oherwydd amodau iechyd corfforol cymhleth y defnyddwyr gwasanaeth, dywedodd staff wrthym fod rhai defnyddwyr gwasanaeth wedi bod i aros mewn ysbyty yn ddiweddar.

Nid oeddem yn gallu adolygu nodiadau cleifion yn ystod yr arolygiad hwn, ac rydym wedi trafod hyn ymhellach o dan 'gofal unigol' isod.

Esboniodd y staff fod y defnyddwyr gwasanaeth yn ddibynnol iawn arnynt i'w helpu i ofalu am eu cyflyrau iechyd a'u hanghenion gofal personol. Roedd pob defnyddiwr gwasanaeth yn defnyddio cadair olwyn ac roedd angen defnyddio teclynau codi i helpu gyda'u hanghenion gofal.

Dywedodd y staff wrthym fod gan y defnyddwyr gwasanaeth gynlluniau gweithgareddau wythnosol lle roeddent yn cael cefnogaeth gan y staff i fwynhau gweithgareddau er mwyn hybu eu lles, megis nofio ac ymweld â'r siopau. Fodd bynnag, oherwydd prinder staff, nid oedd modd darparu digon o gefnogaeth ar gyfer y gweithgareddau hyn. Cawsom ar ddeall fod hyn yn broblem ers diwedd mis Mai 2016. Felly, roeddem yn bryderus bod hyn yn effeithio ar ansawdd bywyd y defnyddwyr gwasanaeth.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod digon o gefnogaeth ar gael i alluogi defnyddwyr gwasanaeth i gymryd rhan mewn gweithgareddau er mwyn hybu eu lles.

Gofal gydag urddas

Mae profiad pobl o ofal iechyd yn un lle caiff pawb eu trin ag urddas, parch, tosturi a charedigrwydd, ac mewn modd sy'n cydnabod ac yn ymdrin ag anghenion corfforol, seicolegol, cymdeithasol, diwylliannol, ieithyddol ac ysbrydol unigolion. (Safon 4.1 – Gofal gydag Urddas)

Yn ystod yr arolygiad hwn, ychydig o arsylwadau a wnaethom o ran a oedd y defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu trin ag urddas a pharch. Roedd hyn oherwydd bod ein pryderon mewn meysydd eraill yn sylweddol ac roedd gofyn i ni gyfeirio ein hamser at y meysydd eraill hyn.

Roedd yr ymadweithio a welsom rhwng y staff a'r defnyddwyr gwasanaeth yn gadarnhaol ac yn dangos bod y defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu trin gyda charedigrwydd a thosturi. Roedd gan bob defnyddiwr gwasanaeth ei ystafell wely ei hun, a oedd wedi cael ei phersonoli gyda'i eiddo ei hun. Roedd y staff yn gallu disgrifio hoff a chas bethau pob defnyddiwr gwasanaeth. Roedd yn ymddangos bod pob defnyddiwr gwasanaeth yn derbyn gofal da a'u bod yn cael cymorth i edrych yn daclus.

Gofal amserol

Mae pob agwedd ar ofal yn cael ei darparu mewn ffordd amserol, gan sicrhau bod pobl yn cael eu trin ac yn derbyn gofal yn y ffordd gywir, ar yr adeg gywir, yn y lle cywir, a chyda'r staff cywir. (Safon 5.1)

Gwnaethom ystyried a oedd y defnyddwyr gwasanaeth yn derbyn y gofal cywir, ar yr adeg gywir, yn y ffordd gywir, ac yn y lle cywir.

Roedd yn ymddangos bod gan y staff ddealltwriaeth dda o anghenion gofal unigol y defnyddwyr gwasanaeth, ond nid oeddem yn gallu gwirio hyn mewn dogfennau. Roedd pob un o'r defnyddwyr gwasanaeth wedi bod yn byw yn yr uned ers blynnyddoedd lawer ac roedd yn ymddangos eu bod yn fodlon eu byd yno. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw wedi bod yn gweithio gyda'r defnyddwyr gwasanaeth am flynyddoedd lawer ac roeddent yn ymroddedig i ddiwallu eu hanghenion. Fodd bynnag, nid oeddem yn gallu pennu sut y cafodd yr anghenion gofal eu hasesu a sut yr oeddent yn cael eu diwallu, neu a oedd gofal amserol yn cael ei ddarparu gan nad oedd cynlluniau gofal ar gael. Rydym wedi nodi ein pryderon ynglŷn â hyn yn fanwl dan 'gofal unigol'.

Dywedodd staff wrthym fod tîm gofal iechyd amlddisgyblaeth wedi bod yn gysylltiedig â darparu gofal a thriniaeth i'r defnyddwyr gwasanaeth. Fodd bynnag, nid oeddem yn gallu gwirio hyn mewn cynlluniau gofal cleifion. Nid oedd y staff yn sicr pa mor aml y cynhaliwyd cyfarfodydd tîm amlddisgyblaeth ac roeddent yn credu eu bod yn cael eu cynnal oddi ar y safle a'r bod yn cael eu trefnu gan y seiciatrydd.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod cyfathrebu cydlynol ag aelodau'r tîm amlddisgyblaeth ac y cynhelir cyfarfodydd amlddisgyblaeth yn rheolaidd.

Gofal unigol

Mae'n rhaid i ddarpariaeth gofal barchu dewisiadau pobl o ran sut maent yn gofalu amdanynt eu hunain gan fod cadw annibyniaeth yn gwella ansawdd bywyd ac yn cynyddu lles corfforol ac emosiynol. (Safon 6.1 – Cynllunio Gofal i Hybu Annibyniaeth)

Gwnaethom ystyried sut roedd y gofal yn cael ei gynllunio, ei ddarparu a'i gofnodi. Er i ni ganfod bod y tîm o weithwyr cymorth yn ystyriol a'u bod yn dangos gofid gwirioneddol am y defnyddwyr gwasanaeth, nid oedd cynlluniau gofal ac asesiadau risg cyfredol ar gael.

Esboniodd y staff eu bod yn cael anawsterau wrth fynd ar system TG y bwrdd iechyd lle roedd yr holl gynlluniau gofal ac asesiadau risg yn cael eu cadw. Dywedwyd wrthym hefyd bod y cyfrifiadur yn y gwasanaeth wedi rhewi a bod gwybodaeth a oedd wedi'i storio'n lleol ar y gyriant caled wedi'i cholli. Er bod y cynlluniau gofal a'r asesiadau risg yn cael eu storio'n ganolog a oedd yn golygu nad oeddent wedi mynd ar goll, nid oedd llawer o'r staff yn gallu cael gafael arnynt trwy'r system TG. Nid oedd yn glir chwaith a oedd unrhyw wybodaeth yn ymwneud â'r defnyddwyr gwasanaeth wedi mynd ar goll ar yriant caled y cyfrifiadur. Dywedwyd wrthym fod y problemau hyn wedi digwydd dros bythefnos ynghynt a bod y staff wedi bod mewn cysylltiad â'r gwasanaethau TG o fewn y bwrdd iechyd ynglŷn â hyn. O ganlyniad, roeddem yn bryderus oherwydd gwelsom fod y staff yn gweithio heb allu gweld y cynlluniau gofal a'r asesiadau risg cyfredol ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth. Roedd hyn yn golygu nad oedd unrhyw ddogfennau ar gael ynglŷn â'r modd yr oedd gofal asesedig posibl wedi'i ddirprwyo i'r staff. Nid oes trefniadau dros dro wedi'u sefydlu ac nid oedd unrhyw gofnodion dyddiol ynglŷn â'r gofal a ddarparwyd ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu gwneud.

Dywedodd y staff wrthym hefyd fod iechyd meddwl un o'r defnyddwyr gwasanaeth wedi dirywio yn ddiweddar, a oedd yn golygu ei fod wedi mynd yn ofidus ac yn bryderus. Roedd hyn yn awgrymu bod angen cynnal adolygiad o gynllun gofal ac asesiad risg y defnyddiwr gwasanaeth, ond nid oedd hyn wedi'i wneud. Gwelsom yn yr achos hwn y gallai'r unigolyn fod wedi elwa hefyd ar gael cynllun cefnogi ymddygiad cadarnhaol. Ar ben hynny, byddai'r staff cymorth wedi elwa ar gael y wybodaeth y byddai cynllun o'r fath wedi'i darparu i lywio eu gwaith.

Ymdriniwyd â'n pryderon yn y maes hwn a'r diffyg canllawiau a oedd ar gael i'r staff yn unol â'n proses sicrwydd ar unwaith, a oedd yn golygu ein bod wedi ysgrifennu at y bwrdd iechyd o fewn dau ddiwrnod gwaith i'n harolygiad ac y byddai'n ofynnol i'r bwrdd iechyd gymryd camau brys i roi sylw i'n canfyddiadau.

Mae gwasanaethau iechyd yn sefydlu cydraddoldeb a hawliau dynol ar draws swyddogaethau a threfniadau cyflenwi gwasanaethau iechyd yn unol â'r gofynion statudol, gan gydnabod amrywiaeth y boblogaeth a hawliau unigolion dan ddeddfwriaeth ar gydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol. (Safon 6.2 – Hawliau Pobl)

Gwnaethom edrych ar sut yr oedd hawliau pobl yn cael eu cynnal.

Dywedodd staff wrthym nad oedd gan unrhyw ddefnyddwyr gwasanaeth gyfyngiadau dan y Ddeddf Iechyd Meddwl. Dywedodd y staff wrthym hefyd eu bod yn credu bod asesiadau galluedd meddyliol wedi'u cwblhau gan y seiciatrydd a oedd yn gysylltiedig â'r defnyddwyr gwasanaeth, ond ni lwyddom

ni i weld tystiolaeth o hyn. Felly, roedd y staff yn gweithio heb wybodaeth am union anghenion y defnyddwyr gwasanaeth unigol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod asesiadau deddf galluedd meddyliol cyfredol ar waith ac ar gael i'r staff.

Gwnaethom holi am drefniadau eiriolaeth, a dywedodd y staff wrthym fod rhai defnyddwyr gwasanaeth yn cael eiriolaeth gan aelodau o'r teulu a oedd yn cymryd rhan yn eu gofal. Roeddent hefyd yn deall bod eiriolwr ar gyfer un claf nad oedd yn cael cymorth gan deulu, ond nid oeddent yn sicr ynghylch manylion y trefniadau hyn. Ar ddiwrnod yr arolygiad, nid oedd unrhyw wybodaeth bendant ar gael ynghylch hyn yn yr uned ar gyfer y staff na'r defnyddwyr gwasanaethau.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod cymorth eiriolaeth ar gael i ddefnyddwyr gwasanaeth a bod arweiniad pendant ynghylch y trefniadau eiriolaeth.

Dywedodd y staff wrthym nad oedd Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (DoLS) ar waith ar gyfer y defnyddwyr gwasanaethau. Roeddem yn bryderus ynglŷn â hyn gan nad oedd pob defnyddiwr gwasanaeth yn rhydd i adael yr uned ac roedd angen eu goruchwyllo'n barhaus. O siarad â'r staff, gwelsom fod y wybodaeth ynglŷn â hyn yn wael ac nad oedd y staff ychwaith yn gallu cofio dilyn hyfforddiant yn y Ddeddf Galluedd Meddyliol na'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid. Yn dilyn yr arolygiad, cadarnhaodd y bwrdd iechyd y sefyllfa gyfreithiol o ran y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ac esbonio nad oedd y trefniadau'n berthnasol oherwydd bod y gwasanaeth yn gweithredu fel gwasanaeth 'byw gyda chymorth'. O ganlyniad, roedd ceisiadau wedi'u gwneud i'r Llys Gwarchod ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth, ond nid oeddent wedi'u datblygu mewn dull amserol. Ymdriniwyd â'n pryderon yn y maes hwn yn unol â'n proses sicrwydd ar unwaith. Nodir manylion pellach ynglŷn â hyn yn Atodiad A.

Dywedodd staff wrthym eu bod yn annog defnyddwyr gwasanaeth i gadw mewn cysylltiad â'u teuluoedd. Fodd bynnag, oherwydd prinder staff, nid oeddent yn gallu cynorthwyo'r defnyddwyr gwasanaeth i ymweld â'u teuluoedd os nad oedd aelodau'r teulu'n gallu dod i'r uned. Roedd hyn wedi effeithio ar un claf yn arbennig a oedd wedi colli cysylltiad â'i mam ers iddi symud i gartref gofal. Dywedodd y staff wrthym fod eiriolwr y defnyddiwr gwasanaeth hwn eisiau sicrhau ei bod yn cael cymorth y staff i ymweld â'i mam, ond nid oedd y cynlluniau hyn wedi datblygu ymhellach. Gwnaeth y staff gydnabod hefyd y

gallai'r diffyg cysylltiad â'i theulu fod yn gysylltiedig â dirywiad y defnyddiwr gwasanaeth o ran iechyd meddwl.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylid cefnogi defnyddwyr gwasanaeth i gadw mewn cysylltiad â'u teuluoedd. Yn benodol, dylai'r bwrdd iechyd ystyried sut y gall defnyddwyr gwasanaeth gadw mewn cysylltiad ag aelodau o'r teulu nad ydynt o bosib yn gallu dod i ymweld â nhw.

Rhaid i bobl sy'n derbyn gofal, a'u teuluoedd, gael eu grymuso i ddisgrifio eu profiadau wrth y rhai a ddarparodd eu gofal fel bod dealltwriaeth eglur o'r hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn nad yw'n gweithio'n dda, a rhaid iddynt dderbyn ymateb agored a gonest. Dylai gwasanaethau iechyd gael eu trefnu yn ôl anghenion y bobl a wasanaethir ac ymdrin â'r anghenion hynny, a dylent ddangos eu bod yn gweithredu yn dilyn adborth ac yn dysgu ohono. (Safon 6.3 – Gwrando a Dysgu o Adborth)

Ni wnaethom archwilio'r gwaith o wrando a dysgu o adborth yn y gwasanaeth yn ystod yr arolygiad hwn. Roedd hyn oherwydd bod ein pryderon mewn meysydd eraill yn sylweddol ac roedd gofyn i ni gyfeirio ein hamser at y meysydd eraill hyn.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Nid oeddem yn gallu bod yn sicr bod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol. Roedd hyn oherwydd nifer a difrifoldeb y diffygion y gwnaethom eu canfod. Rydym wedi gwneud y bwrdd iechyd yn ymwybodol o'r holl bryderon ac rydym wedi gofyn iddo fynd i'r afael ar frys ag ansawdd y gofal a'r safonau gwnaethom eu canfod yn y gwasanaeth hwn.

Gofal diogel

Mae iechyd, diogelwch a lles pobl yn cael eu hybu a'u diogelu'n weithredol. Mae risgiau'n cael eu nodi a'u monitro a, lle bynnag y bo'n bosibl, eu lleihau neu eu hatal.(Safon 2.1 – Rheoli Risg a Hybu Iechyd a Diogelwch)

Ar y cyfan, nid oeddem yn gallu bod yn sicr bod iechyd, diogelwch a lles y defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu diogelu. Fel y nodwyd yn flaenorol, mae hyn am nad oedd asesiadau risg a chynlluniau gofal ar gael ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth ar adeg yr arolygiad.

Yn gyffredinol, roedd yr amgylchedd a'r cyfarpar yn ymddangos yn addas, ac roeddem o'r farn bod yr uned yn lân ac yn daclus yn weledol. Gwelsom fod offer priodol ar waith o ran diogelwch defnyddwyr gwasanaeth, gan gynnwys teclynnau codi a gwelyau cleifion, a dywedodd y staff wrthym eu bod yn gweithio'n iawn. Fodd bynnag, gwelsom fod llawer iawn o lwydni yn yr ystafell gawod a oedd angen sylw ar unwaith. Dywedodd staff wrthym eu bod wedi hysbysu tîm cynnal a chadw'r adeilad nifer o wythnosau yn ôl, ond nad oedd wedi derbyn sylw hyd yma.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r bwrdd iechyd, fel darparwr gofal cyfrifol y defnyddwyr gwasanaeth, uwchgyfeirio gwaith adnewyddu a chynnal a chadw mae angen ei wneud i'r ystafell ymolchi i'r awdurdod sy'n berchen ar yr adeilad er mwyn sicrhau bod y materion hyn yn derbyn sylw'n ddi-oed.

Yn ystod ein harolygiad, roeddem yn bryderus nad oedd defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu hamddiffyn yn ddigonol rhag perygl tân. Gwelsom fod pob un o'r trigolion angen cymorth o ran symudedd, ac roedd angen i lawer ohonynt ddefnyddio teclynnau codi. Er gwaethaf y risg oherwydd bod y defnyddwyr gwasanaeth yn fregus, nid oedd cynlluniau gwacáu'r adeilad yn achos tân na chynlluniau personol ar gyfer hynny ar gael. Nid oedd tystiolaeth ychwaith fod ymarferion tân yn cael eu cynnal.

Oherwydd y problemau gyda'r system gyfrifiadurol, dywedwyd wrthym nad oedd y staff wedi cael mynediad cyson at system y bwrdd iechyd ar gyfer adrodd digwyddiadau'n ymwneud â diogelwch cleifion (a elwir yn DATIX) am dros bythefnos. Roedd gan rai aelodau o'r staff fanylion mewngofnodi a oedd yn galluogi iddynt gael mynediad ato, ond nid oedd hynny gan bob un ohonynt. Roedd hyn yn golygu nad oedd mynediad i DATIX yn ystod pob sifft o bosib; felly, efallai y bydd oedi wrth i'r gwasanaeth adrodd am ddigwyddiadau ac wrth i'r bwrdd iechyd ymchwilio i ddigwyddiadau.

Ymdriniwyd â'n pryderon ynghylch diogelwch rhag tân a mynediad i DATIX yn unol â'n proses sicrwydd ar unwaith. Nodir manylion pellach ynglŷn â hyn yn Atodiad A.

Mae pobl yn cael eu cefnogi i ddiwallu eu hanghenion hydradu a maethol, i wella cymaint â phosibl ar ôl afiechyd neu anaf. (Safon 2.5 – Maeth a Hydradu)

Roedd y rhan fwyaf o'r defnyddwyr gwasanaeth yn cael rhai anawsterau o ran bwyta ac yfed. Gwelsom staff yn cynorthwyo defnyddwyr gwasanaeth i fwyta ac yfed yn ystod yr arolygiad. Roedd yn ymddangos bod gan y staff ddealltwriaeth dda o anghenion pob defnyddiwr gwasanaeth o ran maethol ac o'u dewisiadau o ran bwyd a diod. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn ceisio bodloni dewisiadau unigol bob amser pan fo hynny'n bosibl.

Esboniodd y staff fod therapyddion lleferydd ac iaith wedi asesu pob defnyddiwr gwasanaeth ac wedi rhoi cyngor ynglŷn â darparu cefnogaeth o ran bwyta ac yfed, megis tewychu diodydd a hylifo bwyd er mwyn atal tagu. Fodd bynnag, nid oedd canllawiau clir ar gael ar gyfer hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod canllawiau clir ar gael i'r staff ar gyfer anghenion bwyta ac yfed pob defnyddiwr gwasanaeth.

Mae pobl yn derbyn meddyginiaeth am y rheswm cywir, yn cael y feddyginiaeth gywir, y dos cywir ohoni, a hynny ar yr amser cywir. (Safon 2.6 – Rheoli Meddyginiaethau)

Gwnaethom edrych a oedd meddyginiaethau'r defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu rheoli'n ddiogel ac yn briodol. Ar y cyfan, nid oeddem yn gallu bod yn sicr bod system rheoli meddyginiaethau priodol ar waith.

Ar ddiwrnod yr arolygiad, gwelsom y rhagnodwyd y feddyginiaeth 'Diazepam' ar gyfer un defnyddiwr gwasanaeth. Roedd y feddyginiaeth wedi'i chadw'n ddiogel

mewn cwpwrdd dan glo. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn rhoi 'Diazepam' fel meddyginiaeth PRN (meddyginiaeth a roddir yn ôl yr angen yn unol â'r cyfarwyddiadau rhagnodedig). Fodd bynnag, nid oedd unrhyw ganllawiau clir ar gyfer y staff o ran rhoi'r feddyginiaeth hon ac nid oedd dogfennaeth presgripsiwn na phrotocol PRN ar gael. Nid oedd canllawiau clir ynglŷn â rhoi meddyginiaethau a sut y dirprwywyd y gwaith i'r staff gweithwyr cymorth.

Gwnaethom fynegi hyn wrth yr uwch staff yn y bwrdd iechyd. Er bod polisi rheoli meddyginiaethau hir wedi'i sefydlu ar draws y bwrdd iechyd, nid oedd asesiad risg lleol ar gael ynghyd â pholisi lleol cysylltiedig o fewn y maes gwasanaeth unigol hwn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae gofyn i'r bwrdd iechyd gynnal asesiad risg llawn a sefydlu polisi lleol ar gyfer y gwasanaeth hwn er mwyn darparu fframwaith diogel ar gyfer y staff, yn enwedig ar gyfer y gweithwyr cymorth sydd angen gweithdrefnau cryno clir i'w dilyn i gefnogi diogelwch y defnyddwyr gwasanaeth.

Gwelsom fod y siartiau meddyginiaeth gyffredinol ar gael a bod y staff wedi'u llofnodi. Er nad oedd unrhyw gyffuriau rheoledig dosbarthedig yn bresennol, nid oeddem yn gallu gweld ar ddiwrnod yr arolygiad a oedd rhoi 'Diazepam' wedi'i gofnodi. Yn dilyn yr arolygiad, cadarnhaodd y bwrdd iechyd fod hyn yn cael ei gofnodi gan y staff, ond nad oedd y rheswm dros ei roi yn cael ei gofnodi bob amser. Gwelsom hefyd nad oedd unrhyw gofnodion pendant ynghylch derbyn a dychwelyd meddyginiaethau. Nid oedd y fferyllfa na'r uned wedi cynnal archwiliadau clir a chyson o feddyginiaethau.

Ymdriniwyd â'n pryderon ynglŷn â rheoli meddyginiaethau yn unol â'n proses sicrwydd ar unwaith. Nodir manylion pellach ynglŷn â hyn yn Atodiad A.

Mae gwasanaethau iechyd yn hybu ac yn diogelu lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n dod yn agored i niwed neu sydd mewn perygl ar unrhyw adeg. (Safon 2.7 – Diogelu Plant a Diogelu Oedolion sydd Mewn Perygl)

Gwnaethom ystyried a oedd defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu diogelu rhag camdriniaeth.

Er ein bod yn teimlo bod y staff yn ofalgar ac yn ymroddedig i amddiffyn lles y defnyddwyr gwasanaeth, nid oeddem yn gallu bod yn hyderus bod trefniadau trylwyr ar waith o ran diogelu. Roedd hyn am nad oedd cofnodion o hyfforddiant staff ar gael, a oedd yn golygu nad oeddem yn gallu pennu a oedd eu hyfforddiant diogelu yn gyfredol. Roedd polisi diogelu ar gael ar fewnwyd y

bwrdd iechyd, ond nid oedd pob aelod o'r staff yn gallu cael mynediad ato oherwydd y problemau gyda'u system TG.

Gwelsom hefyd y staff yn defnyddio techneg y gellid ei ystyried yn rhwystrol i helpu i reoli trallod defnyddiwr gwasanaeth. Gwelsom fod defnyddiwr gwasanaeth yn amlwg wedi cynhyrfu ac yn symud ymlaen yn ei gadair olwyn. I reoli hyn, gwnaeth y staff wyro cefn cadair olwyn y defnyddiwr gwasanaeth fel ei fod yn eistedd mewn safle lledorwedd. Gwnaethom siarad â'r staff ynglŷn â hyn ac roeddent yn teimlo bod hyn yn gwneud y defnyddiwr gwasanaeth yn fwy cyfforddus. Fodd bynnag, nid oedd y staff wedi ystyried y gallai'r arfer hwn fod yn rhwystro'r defnyddiwr gwasanaeth rhag symud a/neu'n atal ei ddewis.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r staff yn y gwasanaeth hwn fod yn gwbl ymwybodol o'r gweithdrefnau diogelu, hawliau dynol a Deddf Galluedd Meddyliol gyda chymorth hyfforddiant ac addysg, er mwyn sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu diogelu a bod eu budd gorau'n cael ei warchod bob amser.

Gofal effeithiol

Dylai gofal, triniaeth a phrosesau penderfynu adlewyrchu arfer gorau a bod yn seiliedig ar dystiolaeth i sicrhau bod pobl yn cael y gofal a'r cymorth cywir i ddiwallu eu hanghenion unigol. (Safon 3.1 – Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol)

Gwnaethom ystyried a oedd gofal a thriniaeth defnyddwyr gwasanaeth yr arfer gorau ar gyfer diwallu eu hanghenion unigol.

Ar y cyfan, nid oeddem yn ffyddiog bod yr arferion gofal, triniaeth a gwneud penderfyniadau a welsom yn cydymffurfio ag arferion gorau a thystiolaeth. Er bod y staff yn adnabod y defnyddwyr gwasanaeth yn dda ac yn gallu disgrifio eu hanghenion gofal iechyd unigol yn fanwl, roeddem yn bryderus nad oedd cynlluniau gofal ar gael i'r staff oherwydd y problemau technoleg gwybodaeth a brofwyd. Nid oedd unrhyw drefniadau dros dro i fynd i'r afael â hyn. Felly, nid oeddem yn gallu bod yn sicr bod y defnyddwyr gwasanaeth yn ddiogel a'u bod yn cael eu hamddiffyn rhag niwed y gellid ei osgoi.

Dywedodd y staff wrthym nad oedd cynlluniau cefnogi ymddygiad cadarnhaol ar gael ac roeddent yn teimlo bod angen y rhain arnynt. Fodd bynnag, gwelsom beth ymddygiad cleifion a fyddai'n gallu elwa ar y dull hwn o weithredu.

Gwnaethom ymdrin â'r pryderon hyn yn unol â'n proses sicrwydd ar unwaith. Gwelir manylion pellach ynglŷn â hyn yn Atodiad A.

Wrth gyfathrebu â phobl, mae gwasanaethau iechyd yn diwallu anghenion unigolion o ran iaith a chyfathrebu mewn modd rhagweithiol. (Safon 3.2 – Cyfathrebu'n Effeithiol)

Ni wnaethom edrych yn fanwl ar y maes hwn yn ystod yr arolygiad. Roedd hyn oherwydd bod ein pryderon mewn meysydd eraill yn sylweddol ac roedd gofyn i ni gyfeirio ein hamser at y meysydd eraill hyn.

Gwelsom fod y defnyddwyr gwasanaethau yn cael anawsterau wrth gyfathrebu ar lafar. Dywedwyd wrthym nad oedd y staff yn defnyddio cymhorthion cyfathrebu, ond gwelsom y staff yn addasu eu dulliau o weithredu ac yn canfod yr hyn oedd y defnyddwyr gwasanaeth eisiau. Nid oeddem yn gallu cadarnhau sut yr ymgynghorwyd â'r defnyddwyr gwasanaeth ynghylch eu gofal a'u triniaeth gan nad oedd cofnodion ar gael.

Cadw cofnodion

Mae trefniadau da ar gyfer cadw cofnodion yn hanfodol i sicrhau bod pobl yn derbyn gofal effeithiol a diogel. Rhaid i wasanaethau iechyd sicrhau bod yr holl gofnodion yn cael eu cadw'n unol â deddfwriaeth a chanllawiau ar gyfer safonau clinigol. (Safon 3.5 – Cadw Cofnodion)

Ar y cyfan, roeddem yn bryderus ynglŷn â'r trefniadau ar gyfer cadw cofnodion yn y gwasanaeth. Oherwydd y problemau technoleg gwybodaeth ar adeg yr arolygiad ac am rai wythnosau cyn hynny, nid oedd cofnodion wedi bod ar gael i'r staff i gefnogi eu gwaith ac i sicrhau bod anghenion defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu diwallu'n effeithiol neu'n ddiogel.

Er ein bod yn deall bod methiant system technoleg gwybodaeth/cyfrifiadur yn anghyffredin, ac yn anffodus gwnaeth hyn gyd-ddigwydd â'n harolygiad, cyfrifoldeb y bwrdd iechyd yw sicrhau bod gwybodaeth bersonol a gwybodaeth am gleifion yn cael ei diogelu a bod cofnodion ar gael i staff. Roeddem yn bryderus y gallai gwybodaeth bersonol a gwybodaeth am gleifion fod wedi'i storio ar yriant caled y cyfrifiadur ac y byddai wedi'i cholli bellach.

Gwnaethom ofyn am sicrwydd gan y bwrdd iechyd, trwy ein proses sicrwydd ar unwaith, bod camau priodol wedi'u cymryd neu eu bod wrthi'n cael eu cymryd i ymchwilio a oedd gwybodaeth bersonol wedi'i cholli, gan dorri amod y Ddeddf Diogelu Data. Nodir manylion pellach yn Atodiad A.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Mae natur a difrifoldeb ein canfyddiadau yn ystod yr arolygiad hwn yn amlygu methiannau'n ymwneud â'r trefniadau rheoli a llywodraethu yn y gwasanaeth hwn. Roedd ein prif bryderon yn ymwneud â'r diffyg cefnogaeth gan reolwyr i'r staff ers i'r rheolwr fynd yn absennol oherwydd salwch hirdymor, a oedd yn golygu bod adegau pan nad oedd digon o staff ar gael i ddiwallu anghenion y defnyddwyr gwasanaeth.

Llywodraethiant, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Mae llywodraethiant, arweinyddiaeth ac atebolrwydd effeithiol, sy'n gyson â maint a chymhlethdod y gwasanaeth iechyd a gynigir, yn hanfodol i gyflenwi gofal diogel, effeithiol a chynaliadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Mae natur a difrifoldeb ein canfyddiadau yn ystod yr arolygiad hwn yn amlygu methiannau'n ymwneud â'r trefniadau rheoli a llywodraethu yn y gwasanaeth hwn.

Ar ddiwrnod ein harolygiad, canfuom fod y staff a oedd yn weithwyr cymorth Band 3 yn gweithio yn y gwasanaeth gyda rheolaeth bell iawn. Er y gwelwyd bod y staff yn ymroddedig i'w gwaith a'u bod yn ofalgar yn eu hymagwedd at y defnyddwyr gwasanaeth, nid oedd unigolyn dynodedig yn gyfrifol nac yn arwain y sifft o fewn y tîm gweithwyr cymorth.

Dywedodd y staff wrthym fod eu rheolwr yn absennol oherwydd salwch hirdymor ers diwedd mis Mai 2016. Felly, roedd y staff wedi bod yn gweithio heb gefnogaeth gan reolwyr ers hynny. Er bod y staff yn ymwybodol o'r trefniadau ar alwad yn y bwrdd iechyd ac yn gwybod i gysylltu â'r rheolwr gwasanaeth (a oedd yn gweithio ar draws nifer o ardaloedd ac yn ymdrin ag ardal ddaearyddol eang) ynglŷn ag unrhyw broblemau, nid oedd trefniadau wedi'u rhoi ar waith yn y gwasanaeth ar gyfer gweithiwr proffesiynol cofrestredig dros dro a rheolwyr llinell pendant. Adeg yr arolygiad, nid oeddem yn hyderus ychwaith bod llinellau eglur o atebolrwydd proffesiynol ar waith o fewn y bwrdd iechyd.

Dywedodd y staff wrthym eu bod wedi gwneud eu gorau i rannu'r cyfrifoldebau rheoli rhyngddynt, gan gynnwys y rotâu sifft. Fodd bynnag, nid oedd y cydlynnydd sifft wedi'i nodi ar y rotâu na'r nodiadau trosglwyddo.

Mynychodd yr uwch dîm rheoli yn y bwrdd iechyd yr arolygiad hwn ac roeddent yn amlwg yn gweithio'n galed ac yn gymwys. Fodd bynnag, o drafod, gwelsom fod yr uwch dîm yn ymdrin â nifer ac ystod fawr iawn o wasanaethau, a oedd

wedi'u gwasgaru'n ddaearyddol ar draws rhanbarth y bwrdd iechyd. Oherwydd y cylch gwaith mawr hwn, roeddem yn bryderus y byddai'r uwch dîm yn ei chael hi'n anodd i fod ar gael i ddarparu'r cymorth yr oedd ei angen ar y gwasanaeth anabledd dysgu hwn, o ystyried y sefyllfa bresennol o ran lefelau staffio ac absenoldeb y rheolwr.

Gwnaethom ymdrin â'r problemau hyn yn unol â'n proses sicrwydd ar unwaith. Gwelir manylion pellach yn Atodiad A.

Staff ac adnoddau

Dylai gwasanaethau iechyd sicrhau bod digon o staff sy'n meddu ar y wybodaeth a'r sgiliau cywir ar gael ar yr adeg gywir i ddiwallu anghenion. (Safon 7.1 – Y Gweithlu)

Gwelsom nad oedd digon o staff ar gael oedd â'r sgiliau a'r arweinyddiaeth gywir i ddiwallu anghenion y defnyddwyr gwasanaeth.

Roedd trosiant staff isel yn gweithio yn y gwasanaeth ac roedd aelodau'r staff wedi gweithio yn y gwasanaeth am flynyddoedd lawer. Fodd bynnag, o siarad â staff ac edrych ar y rotâu staff, gwelsom fod y lefelau o ran staffio wedi bod yn broblem droeon yn ystod y ddau fis diwethaf. Yn aml, roedd hyn yn golygu nad oedd digon o staff i ddiwallu anghenion y defnyddwyr gwasanaeth. Yn ddiweddar, roedd nifer o'r staff rhan-amser wedi cynyddu eu horiau er mwyn cynorthwyo, ond roedd prinder staff o hyd.

Dywedodd staff wrthym fod angen cymhareb staffio 2:1 ar gyfer un defnyddiwr gwasanaeth oherwydd bod ei iechyd meddwl wedi dirywio'n ddiweddar. Fodd bynnag, gwelsom fod nifer o achlysuron pan mai dim ond dau aelod o staff oedd yn gweithio ar y sifft ar gyfer yr uned gyfan. Er bod y bwrdd iechyd wedi dweud wrthym yn ddiweddarach nad oedd tystiolaeth ffurfiol i nodi bod angen y gymhareb staffio uwch hon, nid oedd dibyniaeth y defnyddwyr gwasanaeth yn cael ei fonitro. Daeth i'r amlwg hefyd bod angen cynnal adolygiad o'r trefniadau staffio. Hefyd, nid oeddem yn gallu dod o hyd i dystiolaeth bod y cymarebau staffio ar gyfer y defnyddwyr gwasanaeth wedi cael eu hystyried yn ffurfiol.

Dywedodd yr uwch dîm wrthym fod cynlluniau ar waith i gael dau aelod o staff anghofrestredig wrth gefn i'w cynorthwyo oherwydd prinder staff. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym y cafwyd anawsterau mawr wrth gael y staff hyn oherwydd y diffyg ymateb gan swyddfa staff wrth gefn y bwrdd iechyd. Yn dilyn yr arolygiad, esboniodd y bwrdd iechyd eu bod yn cael problemau sylweddol o ran recriwtio staff anabledd dysgu yn yr ardal hon.

Rydym hefyd yn bryderus nad oedd unrhyw system ffurfiol ar waith i fonitro hyfforddiant y staff, naill ai yn y gwasanaeth neu gan dîm rheoli'r bwrdd iechyd, gan gynnwys a oedd eu hyfforddiant gorfodol yn gyfredol. Nid oedd unrhyw gofnodion o hyfforddiant staff ar gael i ni weld ar ddiwrnod yr arolygiad ac nid oedd unrhyw fatrics hyfforddiant ar waith. Roedd y staff yn cydnabod ei bod yn debygol nad oedd eu hyfforddiant gorfodol yn gyfredol.

Roeddem hefyd yn bryderus ynglŷn â'r diffyg cefnogaeth gan reolwyr i'r staff. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn dîm hapus a oedd yn gweithio'n galed, a'u bod wedi gwneud eu gorau i ymdopi yn absenoldeb eu rheolwr, ond roeddent yn cydnabod y bu'n anodd.

Gwnaethom ymdrin â'r problemau hyn yn unol â'r broses sicrwydd ar unwaith. Gwelir manylion pellach yn Atodiad A.

5. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r gwasanaeth anabledd dysgu gwblhau dau gynllun gwella er mwyn rhoi sylw i'r pryderon uniongyrchol a ganfuom, ac i fynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol eraill yr arolygiad (Atodiad A).

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd y gwasanaeth anabledd dysgu yn mynd i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i'r cam(au) a gymerir gan y gwasanaeth mewn ymateb i'r problemau a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyraeddadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC ynglŷn â'r materion a drafodir ynddo.


Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r gwasanaeth yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, dylai'r practis roi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei werthuso ac yna'i gyhoeddi ar wefan AGIC.

6. Methodoleg

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal (gweler Ffigur 1) wrth graidd dull AGIC o gynnal arolygiadau yn y GIG yng Nghymru. Bwriedir i'r saith thema weithio gyda'i gilydd. Gyda'i gilydd, maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r safonau'n allweddol i'r dyfarniadau yr ydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

Ffigur 1: Safonau Iechyd a Gofal



Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth sydd ym meddiant AGIC hyd yma
- Sgyrsiau â chleifion a chyfweliadau staff, gan gynnwys meddygon, nyrsys a staff gweinyddol
- Archwilio sampl o gofnodion meddygol cleifion
- Craffu ar bolisiau a gweithdrefnau
- Archwilio'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer llywodraethu clinigol.

Mae'r arolygiadau hyn yn cofnodi *cipolwg* o'r safonau gofal o fewn gwasanaethau anabledau dysgu.

Rydym yn darparu trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y gwasanaeth yn y cyfarfod adborth a gynhelir ar ddiwedd pob un o'n harolygiadau.

Tynnir sylw'r gwasanaeth a'r bwrdd iechyd lleol at unrhyw bryderon brys sy'n codi o'r arolygiadau hyn drwy lythyr gweithredu ar unwaith, ac mae'r canfyddiadau hyn (lle y bônt yn berthnasol) wedi eu manylu yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

Atodiad A

Gwasanaeth Anabledd Dysgu: Cynllun Gwella

Gwasanaeth: 16024

Dyddiad yr arolygiad: 14 Gorffennaf 2016

Rhif y Dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
SICRWYDD AR UNWAITH					
	<p><u>Nid oedd cynlluniau gofal nac asesiadau risg ar gael</u></p> <p>Yn ystod ein harolygiad, gwelsom nad oedd cynlluniau gofal nac asesiadau risg cyfredol ar gael i gleifion yn leoliad 16024.</p> <p>Dywedodd y staff wrthym nad oedd cynlluniau cefnogi ymddygiad cadarnhaol ar gael ac roeddent yn teimlo bod angen y rhain arnynt. Fodd bynnag, gwelsom ymddygiad cleifion a</p>	3.1 a 3.5	<p>Mae pob un o'r pedwar cynllun gofal, asesiadau craidd a phroffiliau risg ar FACE (system cofnodion electronig). Mae pob un yn gyfredol ac yn unigoleidig.</p> <p>Sicrhawyd bod gyriant cyfrannol ar gael. Mae gan yr holl staff ddulliau adnabod cyfredol er mwyn gallu mynd at y rhwydwaith ac at holl systemau'r Bwrdd lechyd.</p>	Nyrs Arwain Broffesiynol / Arweinydd Tîm Dros Dro	Cwblhawyd

Rhif y Dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	<p>fyddai'n gallu elwa ar y dull hwn o weithredu.</p> <p>Esboniodd y staff fod y system gyfrifiadurol, yr oedd yr holl gynlluniau gofal ac asesiadau risg yn cael eu cadw arni, wedi methu'n llwyr. Dywedwyd wrthym fod hyn wedi digwydd dros bythefnos ynghynt a bod y staff wedi bod mewn cysylltiad â'r gwasanaethau technoleg gwybodaeth ynglŷn â hyn. Cawsom ar ddeall fod yr holl ddata wedi'i golli gan fod gyriant caled y cyfrifiadur wedi'i ddifrodi ac nad oedd unrhyw drefniadau wrth gefn ar gyfer y wybodaeth hon. Roedd hyn yn golygu bod y staff yn gweithio heb allu gweld y cynlluniau gofal a'r asesiadau risg cyfredol ar gyfer cleifion. Nid oedd cynlluniau gofal mewn argyfwng nac asesiadau risg wedi'u sefydlu.</p> <p>Dymunwn gael sicrwydd bod:</p> <ul style="list-style-type: none"> Cynlluniau gofal ac asesiadau risg newydd yn 		<p>Mae cynlluniau gofal, asesiadau craidd a phroffiliau risg wedi cael eu hargraffu i ddarparu copi caled ac yn cael eu cadw mewn cwpwrdd dan glo.</p>	<p>Nyrs Arwain Broffesiynol / Arweinydd Tîm Dros Dro</p>	<p>Cwblhawyd</p>

Rhif y Dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	<p>cael eu sefydlu ar frys ar gyfer pob claf yn yr uned</p> <ul style="list-style-type: none"> Trefniadau trylwyr ar waith i sicrhau bod gwybodaeth am gleifion yn cael ei diogelu a bod trefniadau wrth gefn digonol ar gyfer cofnodion electronig Systemau effeithiol ar gael yn yr uned Camau priodol wedi'u cymryd neu wrthi'n cael eu cymryd ar gyfer gwybodaeth bersonol a gollwyd yn ddamweiniol, gan dorri amod Atodlen 1 y Ddeddf Diogelu Data (7) Camau priodol wedi'u cymryd neu wrthi'n cael eu cymryd i hysbysu Llywodraeth Cymru am y digwyddiad hwn, oherwydd yr effaith ar anghenion parhaus cleifion. 		<p>Mae person cyswllt yn y tîm gwybodeg lleol wedi cael ei enwebu i roi sylw i unrhyw broblemau gyda mynediad at y rhwydwaith.</p> <p>Mae mynediad at y Matrics Rhwydweithiau wedi cael ei ddatblygu i ganfod bylchau o ran mynediad at systemau rhwydwaith.</p> <p>Mae cyfrineiriau'r rhwydwaith wedi cael eu hailosod ar gyfer yr holl staff ac arsylwyd ar staff yn mewngofnodi ar y systemau a rhoddwyd canllawiau cam wrth gam iddynt, sydd wedi cael eu gosod wrth ymyl y cyfrifiadur.</p> <p>Staff i gwblhau Matrics Mynediad at Rhwydweithiau i ganfod bylchau ac unrhyw anghenion hyfforddi.</p> <p>Bydd yr holl ddogfennau papur yn y dyfodol sy'n ymwneud â chleifion yn cael eu huwchlwytho ar Bartneriaid Gofal FACE er mwyn i staff gael mynediad atynt.</p>	<p>Arweinydd Gwybodeg</p> <p>Rheolwr Gwasanaeth</p> <p>TG a'r Nyrs Arwain Broffesiynol / Arweinydd Tîm Dros Dro</p> <p>Nyrs Arwain Broffesiynol / Arweinydd Tîm Dros Dro i ganfod anghenion hyfforddiant.</p> <p>Nyrs Arwain Broffesiynol / Arweinydd Tîm Dros Dro</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p>

Rhif y Dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
			<p>Mae'r Arweinydd Tîm Dros Dro yn trefnu dyddiadau gyda'r tîm cymunedol anableddau dysgu i ymgymryd â 'Diwrnodau Hyfforddiant Rhwydwaith'.</p> <p>Mae hyn yn cynnwys cyfranogiad gan y tîm cyfan wrth adolygu cynlluniau gofal, cynlluniau cefnogi ymddygiad ac asesiadau risg cyfredol yr holl denantiaid, gan gynnwys y rhai nad ydynt ar agor i'r tîm cymunedol anableddau dysgu ar hyn o bryd. Bydd unrhyw ddiffygion o ran sgiliau neu hyfforddiant a nodir gan therapyddion yn cael eu darparu i'r tîm staff ar y diwrnod.</p> <p>Bydd sesiynau sgiliau yn cael eu cyflenwi i'r holl aelodau staff yn unigol lle nodwyd bod angen gwelliannau o ran sgiliau TG.</p> <p>Mae'r gyriant caled blaenorol a chwalodd yn ddiweddar wedi cael ei anfon at gwmni TG allanol am asesiad cychwynnol o'r ffeiliau y gellir eu hadfer; roedd y gwasanaeth wedi derbyn rhestr</p>	<p>Nyrs Arwain Broffesiynol / Arweinydd Tîm Dros Dro</p> <p>Arweinwyr Tîm Preswyl / Arweinydd Gwella'r Gwasanaeth</p> <p>Cyfarwyddwr Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu</p>	<p>Tachwedd / Rhagfyr 2016</p> <p>Sesiynau dilynol i gael eu cynnig yn ystod mis Rhagfyr 2016</p> <p>Cwblhawyd</p>

Rhif y Dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
			o'r ffeiliau y gellir eu hadfer i'w hadolygu. Cadarnhawyd na fu unrhyw doriad o ran cyfrinachedd y mae angen hysbysu amdano. Roedd copi o'r holl wybodaeth ar gof bach.		
	<p><u>Cymorth annigonol gan reolwyr</u></p> <p>Ar ddiwrnod ein harolygiad, gwelsom staff anghofrestredig yn unig yn gweithio yn y gwasanaeth.</p> <p>Dywedodd staff wrthym fod y nyrs reoli gofrestredig</p> <p>wedi bod ar absenoldeb salwch hirdymor ers mis Mai 2016. Felly, roedd y staff wedi bod yn gweithio heb gefnogaeth gan reolwr ers hynny. Nid oedd trefniadau rheoli dros dro na llinellau eglur o atebolrwydd proffesiynol wedi'u rhoi ar waith.</p> <p>Dywedodd y staff wrthym eu bod wedi gwneud eu gorau i rannu'r cyfrifoldebau</p>	3.1 a 7.1	<p>Roedd yr Arweinydd Tîm wedi cael adolygiad salwch terfynol a chadarnhawyd y byddai'n ymddeol ar sail iechyd gwael.</p> <p>Bydd y swydd wag ym Mand 6 yn cael ei hysbysebu o fewn yr wythnosau nesaf ac amcangyfrifir y bydd y broses recriwtio'n cymryd oddeutu tri mis.</p> <p>Bydd gwaith cyflenwi Band 5/6 ar gyfer yr uned yn cael ei hysbysebu fel datganiad o ddiddordeb gan y staff presennol yn y gymuned er mwyn sicrhau digon o staff.</p> <p>Mae'r staff yn gwbl ymwybodol o linellau atebolrwydd y rheolwyr ac i bwy y dylid uwchgyfeirio pryderon o fewn a'r tu allan i oriau, ac mae hyn wedi cael ei gadarnhau.</p> <p>Mae llinellau atebolrwydd proffesiynol ar waith ers dwy flynedd ar gyfer y Nyrs</p>	Rheolwr Gwasanaeth	

Rhif y Dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	<p>rheoli rhyngddynt, gan gynnwys yr amserlenni sifft. Fodd bynnag, nid oedd y cydlynnydd sifft wedi'i nodi ar yr amserlenni na'r nodiadau trosglwyddo.</p> <p>Dywedodd y staff wrthym eu bod yn ymwybodol o'r trefniadau rheoli ar alwad o fewn y bwrdd iechyd, ond bod yr uwch staff wedi'i chael hi'n anodd ymweld â'r uned yn rheolaidd.</p> <p>Rydym yn ceisio sicrwydd bod trefniadau rheoli wedi'u rhoi ar waith ar gyfer achosion brys i sicrhau bod y staff yn cael digon o gymorth rheoli gan nyrs gofrestrdig. Ar ben hynny, bod llinellau eglur o atebolrwydd rheolaethol a phroffesiynol ar waith.</p>		<p>Arwain Broffesiynol ar gyfer Anableddau Dysgu. Cafodd Model Gweithredu ei gymeradwyo ym mis Ionawr 2015 yng nghyfarfod (busnes) y Dangosfwrdd Anabledd Dysgu a oedd yn amlinellu trefniadau Llywodraethu a Sicrwydd o fewn y gwasanaeth hyd at strwythurau Llywodraethu'r Gyfarwyddiaeth.</p> <p>Rhoddodd ymweliad â Leoliad 16024 ar 3 Tachwedd gan y Pennaeth Gwasanaeth a'r Rheolwr Gwasanaeth gyfle i gadarnhau'r trefniadau hyn a thrafod unrhyw bryderon parhaus â staff.</p> <p>Mae'r Nyrs Arwain Broffesiynol ar gyfer Anableddau Dysgu'n gweithredu fel Arweinydd Tîm Dros Dro yn Leoliad 16024 am gyfnod o dri mis o leiaf. Bydd yr Arweinydd Dros Dro yn awr yn ymgymryd â rôl oruchwyliol ar gyfer yr holl unedau cleifion mewnol ar Fand 7 a bydd staff cyflenwi ychwanegol ar Fand 6/7 yn cael eu recriwtio i gefnogi sifftiau.</p>	Pennaeth y Gwasanaeth	Cwblhawyd

Rhif y Dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
			<p>Cynhaliwyd adolygiad o rôl y cydlynnydd sifftiau a bydd y swydd hon yn cael ei gwerthuso, mae trafodaethau â chynrychiolwyr yr undeb llafur yn dangos y bydd angen ail-ddilysu'r radd ar gyfer y dyletswyddau ychwanegol hyn.</p> <p>Bydd hyn hefyd yn sicrhau bod y trefniadau cyflenwi yn Begelly a Bro Myrddin yn briodol hefyd.</p> <p>Mae cyfarfodydd tîm wedi cael eu hailsefydlu'n fisol a byddant yn cael eu cofnodi i gynnwys adborth gan:</p> <ul style="list-style-type: none"> • gyfarfod (Busnes) y Dangosfwrdd Anabledd Dysgu • Grŵp Cyfeirio'r Tîm Amlddisgyblaeth (Llywodraethu Clinigol) • cyfarfod y Gofrestr Risg • cyfarfod Amcanion Gwasanaeth. <p>Roedd gwybodaeth wedi cael ei hailddosbarthu i'r holl staff anabledd dysgu ynglŷn â sut i uwchgyfeirio</p>	<p>Nyrs Arwain Broffesiynol / Arweinydd Tîm Dros Dro</p> <p>Rheolwr Gwasanaeth</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p>

Rhif y Dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
			<p>pryderon clinigol a/neu bryderon rheolaeth ar ffurf memo. Roedd y Rheolwr Gwasanaeth wedi ymweld ar ambell i achlysur ac mae'n cadw cysylltiad rheolaidd ar y ffôn i sicrhau bod staff yn cael eu cefnogi.</p> <p>Mae cydlynwyr sifftiau wedi cael eu henwebu ac maent yn cael eu nodi ar y cofnod trosglwyddo gofal ac ar yr amserlen ddyletswyddau. Ers hynny mae hyn wedi cael ei herio gan gynrychiolwyr ar ran y staff. Mae'r Rheolwr Gwasanaeth yn cyfarfod â chynrychiolwyr yr undeb llafur i adolygu'r swyddogaeth hon ac i edrych ar ei gradd. (gweler uchod).</p> <p>Mae'r Arweinydd Tîm Dros Dro'n trafod dyddiadau ar gyfer goruchwyllo'r holl staff fel grŵp ac unigolion yn ffurfiol.</p> <p>Mae'r Arweinydd Tîm Dros Dro'n trefnu dyddiadau ar gyfer goruchwyllo'r aelodau hynny o staff nad ydynt yn gyfredol (mae naw allan o 15 wedi cael eu cwblhau ar hyn o bryd ac mae</p>	<p>Nyrs Arwain Broffesiynol / Arweinydd Tîm Dros Dro</p> <p>Nyrs Arwain Broffesiynol / Arweinydd Tîm Dros Dro</p> <p>Nyrs Arwain Broffesiynol / Arweinydd Tîm Dros Dro</p>	<p>7.11.2016</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Adolygwyd 1.12.2016</p>

Rhif y Dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
			dyddiadau wedi eu trefnu yn hwyrach yn y mis ar gyfer y rhai nad ydynt yn gyfredol gan gynnwys tri ar absenoldeb salwch).		
	<p><u>Lefelau staffio annigonol</u></p> <p>O siarad â staff ac edrych ar yr amserlenni staff, gwelsom fod y lefelau staffio wedi bod yn broblem droeon yn ystod y misoedd diwethaf. Yn aml, roedd hyn yn golygu nad oedd digon o staff â'r cymysgedd sgiliau cywir i ddiwallu anghenion y defnyddwyr gwasanaeth.</p> <p>Dywedwyd wrthym fod angen cymhareb staffio 2:1 ar gyfer un defnyddiwr gwasanaeth, ond gwelsom y bu nifer o achlysuron pan dim ond dau aelod o staff oedd yn gweithio ar y sifft ar gyfer yr uned gyfan. Daeth i'r amlwg hefyd fod angen cynnal adolygiad o'r trefniadau staffio.</p> <p>Cawn ar ddeall fod cynlluniau ar waith i</p>	3.1 a 7.1	<p>Mae salwch hirdymor diweddar wedi cyfrannu at lefelau is o ran staffio.</p> <p>Cwblhawyd adolygiad o ddibyniaeth cleifion a chasglwyd bod angen tri gweithiwr cymorth ar gyfer y sifft dydd ac un yn cysgu, un yn effro yn ystod y nos.</p> <p>Mae adolygiad o nifer y staff cyfredol wedi dangos bod angen adolygu'r strwythur staffio i sicrhau bod digon o staff ar gael. Bydd hyn yn cynnwys strwythur diwygiedig a fydd yn rhoi sylw i sicrhau bod cydlynnydd sifftiau a gweithiwr Gradd 5/6 ar gael ar gyfer sifftiau.</p> <p>Bydd system gofnodi DATIX yn cofnodi unrhyw sifftiau lle nad oedd digon o staff yn gweithio. Bydd system gofnodi DATIX yn rhybuddio rheolwyr am unrhyw batrymau parhaus.</p> <p>Bydd y staff yn cysylltu â Band 7 ar</p>	Rheolwr Gwasanaeth / Pennaeth y Gwasanaeth	30.11.2016

Rhif y Dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	<p>gael dau aelod o staff anghofrestredig wrth gefn am 30 awr yr wythnos. Fodd bynnag, dywedodd y rheolwr gwasanaeth wrthym y cafwyd anawsterau wrth gael y staff hwn.</p> <p>Dymunwn gael sicrwydd bod:</p> <ul style="list-style-type: none"> Lefelau dibyniaeth cleifion yn cael eu monitro a chynhelir adolygiad o'r trefniadau staffio yn unol â hynny Y lefelau staffio'n derbyn sylw ar frys a bod yr anawsterau wrth gael staff yn cael eu huwchgyfeirio'n ddi-oed Y bwrdd iechyd yn sefydlu systemau uwchgyfeirio priodol pan nodir lefelau staffio annigonol. 		<p>unwaith os na fydd digon o staff ac mae staff asiantaeth wedi cael eu rhoi ar waith fel trefniant dros dro.</p> <p>Yn ogystal, mae hysbysebion am staff banc anabledau dysgu wedi cael eu cylchredeg ac mae 19 o ymgeiswyr yn cael cyfweliad ar 1 Rhagfyr.</p> <p>Bydd swydd barhaol 30 awr ychwanegol yn cael ei hysbysebu.</p> <p>Mae staff rhan amser presennol wedi cael oriau ychwanegol i gefnogi cydweithwyr.</p> <p>Mae gweithwyr cyflenwi hyblyg o uned arall yn Sir Benfro yn ychwanegu at nifer y staff.</p> <p>Ble y bo'n briodol, mae gweithgareddau'n cael eu cyfuno â phreswylwyr o uned arall er mwyn sicrhau nad ydynt yn cael eu canslo.</p> <p>Bydd yr amserlenni dyletswydd yn cael eu harchwilio i ganfod sawl gwaith yn y</p>	<p>Nyrs Arwain Broffesiynol /</p>	<p>Cwblhawyd</p>

Rhif y Dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
			<p>chwe mis diwethaf mae lefelau staffio wedi cwmpo o dan y lefel ofynnol.</p> <p>Cymeradwyo staff asiantaeth ar unwaith i gefnogi'r tîm staff presennol.</p> <p>Cytunwyd i gyflogi gweithiwr cymorth gofal iechyd ychwanegol i fodloni anghenion asessedig 2:1 y tenantiaid.</p> <p>Dyrannwyd gweithwyr proffesiynol o dîm cymunedol anableddau dysgu Sir Benfro ar gyfer pob tenant yn y lleoliad byw â chymorth hwn.</p> <p>Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda'r swyddfa banc i sicrhau bod cronfa o staff wedi eu hyfforddi'n briodol ar gael i'w recriwtio i gefnogi'r unedau.</p> <p>Bydd agweddau hyblyg tuag at y gweithlu'n cael eu hymchwilio gyda'r gwasanaethau cymdeithasol / gofal cartref/ taliadau unigol, a byddant yn cael eu cynnwys yn y gwaith o</p>	<p>Arweinydd Tîm Interim</p> <p>Cyfarwyddwr Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu</p> <p>Cyfarwyddwr Cynorthwyol Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu</p> <p>Rheolwr Tîm Cymunedol Anableddau Dysgu</p> <p>Rheolwr Gwasanaeth</p> <p>Pennaeth y Gwasanaeth</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Cyfweliadau 1.12.2016</p> <p>Yn barhaus</p>

Rhif y Dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
			<p>drawsnewid yr agenda anabledd dysgu ac yn cynnig opsiwn mwy hirdymor a chynaliadwy ar gyfer cyflenwi gofal preswyl a bydd yn cynnwys adolygu gofynion cofrestru.</p> <p>Mae'r Nyrs Arwain Broffesiynol wedi asesu anghenion gofal y tenantiaid ac wedi datblygu amserlen 24 awr ar gyfer pob unigolyn sy'n nodi gweithgareddau arferol yn ogystal â gweithgareddau i alluogi'r tenantiaid i chwarae rhan lawnach yn y gymuned. Mae hyn yn seiliedig ar ddull cymorth gweithredol. Mae'r amserlenni hyn wedi nodi bylchau o ran y staff mae eu hangen i gefnogi'r gweithgareddau cynlluniedig ac wedi arwain at benderfyniad i recriwtio dau gydlynnydd gweithgareddau rhan amser ychwanegol ar gyfer Leoliad 16024.</p> <p>Mae adolygiadau wedi cael eu trefnu ar gyfer pob un o'r tenantiaid gan y tîm amlddisgyblaeth a bydd yr amserlenni 24 awr ar gyfer pob unigolyn yn cael eu hadolygu yn y cyfarfodydd hyn yn ogystal â'r anghenion gofal unigol ac unrhyw ofynion o ran cymorth</p>	<p>Nyrs Arwain Broffesiynol / Arweinydd Tîm Dros Dro / Arweinydd Tîm Gofal Cymdeithasol y Tîm Gofal Cymuned Anableddau Dysgu</p> <p>Nyrs Arwain Broffesiynol / Arweinydd Tîm Dros Dro / Arweinydd Tîm Gofal Cymdeithasol y Tîm Gofal Cymuned</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p>

Rhif y Dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
			ychwanegol gan y tîm amlddisgyblaeth (gan dîm cymunedol anableddau dysgu Sir Benfro)	Anableddau Dysgu	
	<p><u>Rheolaeth meddyginiaeth annigonol</u></p> <p>Ar ddiwrnod yr arolygiad, gwelsom y rhagnodwyd y feddyginiaeth 'Diazepam' ar gyfer un claf. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn rhoi 'Diazepam' fel meddyginiaeth PRN (meddyginiaeth a roddir yn ôl yr angen yn unol â'r cyfarwyddiadau rhagnodedig). Fodd bynnag, nid oedd unrhyw ganllawiau clir ar gyfer y staff o ran rhoi'r feddyginiaeth hon ac nid oedd protocol PRN ar gael. Er nad oedd unrhyw gyffuriau rheoledig dosbarthedig ar gael, nid oedd rhoi 'Diazepam' wedi'i gofnodi.</p> <p>Gwelsom hefyd fod cofnodion ynghylch</p>	2.6	<p>Ar hyn o bryd mae staff yn gweinyddu ac yn llofnodi ar gyfer meddyginiaeth mewn parau. Llofnodir ar gyfer Diazepam PRN ar gefn dalenni'r cofnod gweinyddu meddyginiaeth gyda'r rheswm dros ei weinyddu. Mae'r polisi'n gofyn bod staff yn cysylltu â'r unigolyn ar alwad cyn rhoi Diazepam ac mae protocol PRN ar waith, mae staff wedi cael eu hatgoffa o'r prosesau hyn.</p> <p>Mae polisi meddyginiaeth y bwrdd iechyd a Chanllawiau Cymru Gyfan ar gyfer Byrddau/Ymddiriedolaethau Iechyd mewn perthynas â Meddyginiaethau a Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd wedi cael eu hargraffu ac wedi cael eu rhoi ar y cwpwrdd meddyginiaeth mewn poced glir. Mae staff wedi cael eu hatgoffa o'r angen i</p>	Nyrs Arwain Broffesiynol / Arweinydd Tîm Interim	Cwblhawyd

Rhif y Dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	<p>derbyn a dychwelyd meddyginiaethau ar goll.</p> <p>Nid oedd y fferyllfa na'r uned wedi cynnal archwiliadau clir a chyson o'r meddyginiaethau.</p> <p>Rydym yn ceisio sicrwydd bod trefniadau cadarn a diogel yn eu lle ar gyfer rheoli meddyginiaeth ac y caiff staff gyfarwyddyd clir ynghylch gweinyddu a chofnodi meddyginiaeth.</p>		<p>ddarllen a deall y ddwy ddogfen hyn.</p> <p>Mae staff wedi cael eu gwneud yn ymwybodol y bydd hyfforddiant Agored Lefel 3 ar gael iddynt yn hwyrach yn 2016 ar ôl i'r pecyn hyfforddiant gael ei gymeradwyo gan y bwrdd iechyd.</p> <p>Mae'r Arweinydd Tîm Dros Dro wedi datblygu dogfen un dudalen i staff yn ymwneud â chofnodi gweinyddu meddyginiaeth (wedi ei rhoi ar y cwpwrdd meddyginiaeth).</p> <p>Cysylltwyd â Fferyllfa Boots i ddarparu tystiolaeth o'u llwybr archwilio yn ogystal â chofnodion o feddyginiaeth a ddosbarthwyd i'r uned ac a ddychwelwyd gan yr uned.</p> <p>Mae'r Arweinydd Fferyllol wedi cynnal adolygiad o feddyginiaeth.</p> <p>Gofynnwyd i'r Arweinydd Fferyllol ar gyfer Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu gynghori ar archwiliad cynhwysfawr o leoliadau lle ceir cyfraniad gan fferyllfa gymunedol.</p> <p>Adolygu trefniadau storio'r holl</p>	<p>Arweinydd Fferyllol ar gyfer Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu</p>	<p>Cwblhawyd</p>

Rhif y Dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
			<p>feddyginiaethau nad ydynt yn cael eu cyflenwi mewn pecynnau swigod gan y fferyllfa gymunedol</p> <p>Mae hyfforddiant dros dro ar reoli meddyginiaeth wedi dechrau i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion cyn i'r hyfforddiant Agored gael ei gymeradwyo.</p> <p>Bydd adolygiad o benderfyniadau Budd Pennaf yn digwydd mewn perthynas â defnydd meddyginiaeth gudd pan gaiff ei rhoi gyda bwyd neu ddioid.</p> <p>Mae'r bwrdd iechyd yn datblygu pecyn hyfforddiant i weithwyr cymorth gofal iechyd a fydd angen cymeradwyaeth gan yr Adran Dysgu a Datblygu a chan Agored. Disgwylir y bydd hyfforddiant ledled y bwrdd iechyd yn dechrau ym mis Hydref 2016 i bob gweithiwr cymorth gofal iechyd sy'n gweinyddu meddyginiaeth.</p> <p>Mae hyfforddiant rheoli meddyginiaeth wedi dechrau a bydd yn cael ei gyflenwi i 100% o'r tîm staff cyn i becyn</p>	<p>Uwch-nyrs ar gyfer Rheoli Meddyginiaethau</p> <p>Tîm Amlddisgyblaeth</p> <p>Uwch-nyrs ar gyfer Rheoli Meddyginiaethau</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>10.10.16</p>

Rhif y Dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
			<p>hyfforddiant Agored gael ei gymeradwyo.</p> <p>Arweinydd Fferyllol i gysylltu â Fferyllfa Boots i sicrhau bod y labelau cywir ar feddyginiaeth a'i bod yn bodloni gofynion cyfreithiol.</p> <p>Gweithdrefn weithredu safonol i gael ei datblygu ar gyfer cofnodi a dychwelyd meddyginiaethau.</p> <p>Mae proses ar gyfer derbyn a dinistrio meddyginiaeth yn cael ei datblygu ar gyfer cartrefi cymunedol.</p> <p>Mae rhestr wirio asesu cymhwysedd hefyd wedi cael ei datblygu a'i thrafod â rhai o'r staff er mwyn adolygu eu harferion meddyginiaeth.</p>	<p>Arweinydd Fferyllol ar gyfer Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu</p> <p>Uwch-nyrs ar gyfer Rheoli Meddyginiaethau</p> <p>Arweinydd Fferyllol ar gyfer Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu</p> <p>Nyrs Arwain Broffesiynol / Arweinydd Tîm Interim</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Yn barhaus</p>

Rhif y Dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	<p><u>Nid oedd cynlluniau gwacáu'r adeilad yn achos tân na chynlluniau personol ar gael</u></p> <p>Yn ystod ein harolygiad, gwelsom fod pob un o'r trigolion angen cymorth o ran symudedd, ac roedd angen i lawer ohonynt ddefnyddio teclynnau codi.</p> <p>Er gwaethaf y risg oherwydd bod y cleifion yn fregus, nid oedd cynlluniau gwacáu'r adeilad yn achos tân na chynlluniau personol ar gyfer hynny ar waith. Nid oedd tystiolaeth ychwaith fod ymarferion tân yn cael eu cynnal.</p> <p>Rydym yn ceisio sicrwydd bod yr holl fesurau priodol i amddiffyn cleifion yn ddigonol rhag perygl tân yn cael eu rhoi ar waith ar fyrder.</p>	2.1	<p>Mae Cynllun Amddiffyn rhag Tân ar waith yn yr uned a oedd wedi cael ei adolygu a'i ddiweddarau ym mis Ionawr 2015. Mae adolygiadau'n cael eu trefnu gan swyddogion tân y bwrdd iechyd ac yn cael eu cynnal ddwywaith y flwyddyn.</p> <p>Mae'r Cynllun Amddiffyn rhag Tân yn cynnwys cynlluniau gwacáu generig ar gyfer tenantiaid, ond nid oedd yn cynnwys Cynlluniau Gwacáu Personol Unigoledig.</p> <p>Mae'r Swyddog Tân wedi cwblhau archwiliad pellach o'r Cynllun Amddiffyn rhag Tân a'r uned.</p> <p>Mae'r Arweinydd Tîm Dros Dro wedi cwblhau Cynlluniau Gwacáu Personol Unigoledig ar gyfer pob un o'r pedwar tenant</p> <p>Mae Cynllun Amddiffyn rhag Tân drafft wedi cael ei ddatblygu. Nid yw cynlluniau llawr a ddarparwyd gan Gymdeithas Tai Sir Benfro yn cyd-fynd â'r cynllun go iawn felly ni ellir eu hychwanegu at y Cynllun Amddiffyn ar</p>	<p>Swyddog Tân Sir Benfro</p> <p>Arweinydd Tîm Dros Dro</p> <p>Swyddog Tân Sir Benfro</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p>

Rhif y Dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	<p>Hyfforddiant staff Nid oedd cofnodion hyfforddiant staff ar gael i'w hadolygu. Wrth siarad â staff gwelwyd nad oedd hyfforddiant, gan gynnwys hyfforddiant gorfodol, yn gyfredol. Nid oedd unrhyw system ar gyfer monitro hyfforddiant, naill ai yn yr uned nac ar lefel y bwrdd iechyd.</p>		<p>hyn o bryd. Mae angen gwneud mân newidiadau pellach i'r cynllun ond gall y staff ei ddefnyddio ar unwaith.</p> <p>Mae'r Swyddog Tân wedi gofyn i'r Gwasanaeth Tân gynnal Gwiriad Diogelwch yn y Cartref</p> <p>Bydd y Swyddog Tân yn cynnal Ymarfer Gwacáu Adeilad mewn Tân. Dyddiadau i'w cadarnhau.</p> <p>Mae ffeiliau personél sy'n dal cofnodion hyfforddiant staff unigol yn cael eu cloi mewn cwpwrdd ffeilio. Mae'r allwedd i'r cwpwrdd cofnodion yn cael ei chadw mewn diogell dan glo yn y cartref yn awr.</p> <p>Nid oes gan gofnod staff electronig y bwrdd iechyd gofnodion "byw" ar gyfer hyfforddiant staff felly bydd adolygiad yn cael ei gynnal o'r holl hyfforddiant gyda'r holl staff fel rhan o'u Harfarniad ac Adolygiad Datblygu Personol.</p>		10.10.16

Rhif y Dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
			<p>Mae allwedd newydd wedi ei chael ar gyfer y cwpwrdd dan glo ac mae'r allwedd yn ddiogel.</p> <p>Mae cypyrddau gyda chloeon ar ffurf cod aml rif wedi cael eu harchebu i gadw allweddi cypyrddau. Bydd hyn yn golygu y byddant yn ddiogel ar yr unedau a dim ond y bobl berthnasol fydd yn gallu mynd at yr allweddi gan sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rheoli'n ddiogel yn unol â pholisïau llywodraethu gwybodaeth.</p> <p>Mae matrices hyfforddiant wedi cael ei ddatblygu gan y Rheolwr Gwasanaeth i'w gwblhau gyda staff er mwyn canfod anghenion hyfforddiant y tîm, mae'r cofnod hwn yn cael ei gadw yn eu ffeiliau personél</p> <p>Datblygu cynlluniau hyfforddi tîm a rhai unigol.</p> <p>Cadarnhau amserlen o ddyddiadau ar gyfer goruchwyliaeth grŵp /</p>	<p>Arweinydd Tîm Dros Dro / Rheolwr Gwasanaeth</p> <p>Rheolwr Dros Dro / Nyrs Arwain</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p>

Rhif y Dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
			goruchwyliaeth unigol yn 2016 ac Arfarniadau ac Adolygiadau Datblygu Perfformiad lle nad ydynt wedi cael eu cynnal.	Broffesiynol	
	<p>Wrth ymchwilio i'r materion a amlinellir yn y llythyr hwn, dylai'r bwrdd iechyd roi sylw penodol i rôl rheolaeth ac arweinyddiaeth.</p> <p>Rhaid i'r bwrdd iechyd roi sicrwydd i AGIC ynglŷn â'r camau brys mae angen eu cymryd i ganfod unrhyw wendidau o ran rheolaeth, arweinyddiaeth neu lywodraethu sydd wedi:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyfrannu at ddigwyddiad y materion a nodwyd yn ystod ein harolygiad • Arwain at fethu canfod y problemau ac yna'u datrys gan y bwrdd iechyd. 		<p>Mae'r uwch dîm rheoli'n cydnabod bod materion wedi codi o ganlyniad i arolygiad AGIC nad oedd y gwasanaeth yn ymwybodol ohonynt, er gwaethaf y strwythurau goruchwyllo a oedd ar waith.</p> <p>Mae'r uwch dîm rheoli'n cydnabod yr angen i ddarparu mwy o gyfleoedd i'r timau sy'n cyflenwi gwasanaethau leisio pryderon a'u huwchgyfeirio at uwch reolwyr. Mae angen i reolwyr ar bob lefel sicrhau nad yw safonau annerbyniol o wasanaeth neu amgylcheddau gofal yn cael eu goddef mewn unrhyw wasanaeth ledled y Gyfarwyddiaeth.</p> <p>Mae'r Nyrs Arwain Broffesiynol (aelod o'r tîm rheoli anabledau dysgu) wedi cael ei phenodi'n barhaol yn Leoliad 16024 i ddarparu arweiniad a chymorth</p>	Pennaeth y Gwasanaeth	Cwblhawyd

Rhif y Dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
			<p>cyfarfodydd a amlinellir uchod. Mae adborth cynnar wedi amlygu'r angen am adolygiad ehangach o'r strwythurau a'r angen i ail-werthuso swydd y cydlynnydd a mwy o weithwyr cyflenwi Band 6 ym mhob uned.</p> <p>Yr uwch dîm i roi system ar waith lle gall pob uwch reolwr ymweld â phob ward ac adran i sicrhau bod negeseuon allweddol yn cael eu cyfathrebu. Nid yw dibynnu ar yr hierarchaeth reoli i gael rhai negeseuon yn ddigonol oherwydd mae'n hollbwysig i rai bod negeseuon wedi cael eu cyfathrebu.</p> <p>Yr uwch dîm rheoli i asesu sut mae gwybodaeth yn llifo i'r gwasanaeth ac o'r gwasanaeth trwy'r strwythurau mewn rhai meysydd allweddol, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • yr adran ystadau • Pwysau ar staff, newidiadau staffio • Materion clinigol • Dysgu gwersi 	Cyfarwyddwr Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu	Cwblhawyd

Rhif y Dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
			<p>Gwnaed cais i asiantaethau contractio lleol i ddarparu staff ychwanegol gyda phrofiad perthnasol o anabledd dysgu.</p> <p>Mae unigolyn wedi cael adolygiad gofal cymdeithasol ac argymhellwyd Taliadau Uniongyrchol ar gyfer y tenant hwn.</p>	<p>Cyfarwyddwr Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu</p> <p>Arweinydd Tîm Dros Dro</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p>
7	Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod cyfathrebu cydlynol ag aelodau'r tîm amlddisgyblaeth ac y cynhelir cyfarfodydd amlddisgyblaeth yn rheolaidd.	5.1	<p>Ychydig o ymwneud a fu gan y Tîm Cymunedol Anableddau Dysgu a chafwyd diffyg o ran rheoli achosion ac adolygiadau o gynlluniau gofal ac asesiadau risg o ganlyniad, o safbwynt amlddisgyblaethol.</p> <p>Mae cyfarfodydd tîm wedi cael eu hailsefydlu'n fisol a byddant yn cael eu cofnodi i gynnwys adborth o:</p> <ul style="list-style-type: none"> - gyfarfod y Dangosfwrdd Anabledd Dysgu (Busnes) - cyfarfod Grŵp Cyfeirio (Llywodraethu Clinigol) y Tîm 	<p>Nyrs Arwain Broffesiynol / Arweinydd Tîm Dros Dro</p>	<p>Cwblhawyd</p>

Rhif y Dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
			<p>Amlldisgyblaeth</p> <ul style="list-style-type: none"> - cyfarfod y Gofrestr Risg - cyfarfod Amcanion Gwasanaeth <p>Bydd yr Arweinydd Tîm Dros Dro'n trefnu timau amlldisgyblaeth i gynnwys tîm staff Leoliad 16024 a staff tîm cymunedol anableddau dysgu Sir Benfro bob chwe mis neu wrth i anghenion newid.</p> <p>Mae'r Arweinydd Tîm Dros Dro yn trefnu dyddiadau gyda'r tîm cymunedol anableddau dysgu i ymgymryd â 'Diwrnodau Hyfforddiant Rhwydwaith'. Mae hyn yn cynnwys cyfranogiad gan y tîm cyfan wrth adolygu cynlluniau gofal, cynlluniau cefnogi ymddygiad ac asesiadau risg cyfredol yr holl denantiaid, gan gynnwys y rhai nad ydynt ar agor i'r tîm cymunedol anableddau dysgu ar hyn o bryd. Bydd unrhyw ddiffygion o ran sgiliau neu hyfforddiant a nodir gan therapyddion</p>	<p>Rheolwr Tîm Cymunedol Anableddau Dysgu / Arweinydd Tîm Dros Dro</p> <p>Nyrs Arwain Broffesiynol / Arweinydd Tîm Dros Dro</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>Diwedd Tachwedd/dechrau Rhagfyr</p>

Rhif y Dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
			<p>yn cael eu darparu ar y diwrnod i'r tîm staff.</p> <p>Arweinydd Tîm Dros Dro i sicrhau agwedd amlddisgyblaethol tuag at ddarparu gofal, gyda chymorth yn ôl y gofyn. Mae'r diwrnodau hyfforddiant rhwydwaith a nodir uchod yn ategu hyn.</p>	Arweinydd Tîm Dros Dro	30.09.16
8	Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod asesiadau deddf galluedd meddyliol cyfredol ar waith ac ar gael i'r staff.	6.2	<p>Arweiniodd adolygiad o denantiaethau cleientiaid at gwblhau asesiadau galluedd ym mis Hydref 2015. Ceisiwyd cyngor gan Arweinydd Deddf Galluedd Meddyliol y bwrdd iechyd a chan Wasanaethau Cyfreithiol Iechyd Cymru yn nodi camau gweithredu i symud ceisiadau Llys Gwarchod tenantiaid mewn gwasanaethau byw â chymorth yn Sir Benfro yn eu blaenau; Ni chafodd y rhain eu symud ymlaen yn brydlon. Dim ond ar gyfer awdurdodi colli rhyddid mewn ysbyty neu gartref gofal cofrestredig y gellir defnyddio Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid felly y Llys Gwarchod yw'r unig lwybr sydd ar gael i denantiaid gwasanaethau</p>		

Rhif y Dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
			<p>byw â chymorth; nid ystyriwyd bod hyfforddiant Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn briodol ar gyfer y staff yn y gwasanaethau hyn ond mae bwch o ran hyfforddiant Deddf Galluedd Meddyliol.</p> <p>Nid oedd gan staff fynediad at yr asesiadau galluedd meddyliol hynny a oedd wedi cael eu cwblhau.</p> <p>Asesiadau galluedd cyfredol wedi cael eu cynnal</p> <p>Cofnodion o asesiadau galluedd meddyliol i gael eu cadw yn y cofnodion gofal.</p>	<p>Seiciatrydd Ymgynghorol</p> <p>Arweinydd Tîm Dros Dro</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p>
9	Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod cymorth eiriolaeth ar gael i ddefnyddwyr gwasanaeth a bod arweiniad pendant ynghylch y trefniadau eiriolaeth.	6.2	<p>Mae gan un tenant fynediad at wasanaethau eiriolaeth ac nid yw tri o'r tenantiaid yn derbyn y gwasanaeth hwn.</p> <p>Arweinydd Tîm Dros Dro i ail ddechrau trafodaethau â theuluoedd ynglŷn â'r gwasanaeth eiriolaeth a chyfeirio tenantiaid at Pobl yn Gyntaf Sir Benfro am gymorth eiriolaeth lle cytunir ar</p>	Arweinydd Tîm Dros Dro	Cwblhawyd

Rhif y Dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
			<p>hynny.</p> <p>Arweinydd Tîm Dros Dro i gysylltu â Phobl yn Gyntaf Sir Benfro i gael eu taflen wybodaeth a rhoi'r daflen hon i deuluoedd lle cytunir ar hynny.</p> <p>Arweinydd Tîm Dros Dro i ddsbarthu taflen wybodaeth Pobl yn Gyntaf Sir Benfro i staff a chadarnhau bod yr holl staff yn ymwybodol ohoni yng nghyfarfod nesaf y tîm.</p> <p>Arweinydd Tîm Dros Dro i wahodd eiriolwyr tenantiaid i gyfarfodydd y timau amlddisgyblaeth yn y dyfodol</p>	<p>Arweinydd Tîm Dros Dro</p> <p>Arweinydd Tîm Dros Dro</p> <p>Arweinydd Tîm Dros Dro</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p>
9	Dylid cefnogi defnyddwyr gwasanaeth i gadw mewn cysylltiad â'u teuluoedd. Yn benodol, dylai'r bwrdd iechyd ystyried sut y gall defnyddwyr gwasanaeth gadw mewn cysylltiad ag aelodau o'r teulu nad ydynt o bosib yn gallu dod i ymweld â nhw.	6.2	<p>Nid oedd y tîm rheoli'n ymwybodol nad oedd ymweliadau teuluol yn digwydd fel rhan o'r gweithgareddau a oedd wedi eu canslo.</p> <p>Bydd staff ychwanegol yn cael eu darparu i alluogi ymweliadau cynlluniedig gan deuluoedd. Mae teuluoedd yn ymweld â Leoliad</p>	Arweinydd Tîm Dros Dro	21.10.16

Rhif y Dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
			16024 yn aml ac mae un claf yn cael cymorth i ymweld â'i mam sydd mewn cartref nyrsio.		
Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol					
10	Dylai'r bwrdd iechyd, fel darparwr gofal cyfrifol y defnyddwyr gwasanaeth, uwchgyfeirio gwaith adnewyddu a chynnal a chadw mae angen ei wneud i'r ystafell ymolchi i'r awdurdod sy'n berchen ar yr adeilad er mwyn sicrhau bod y materion hyn yn derbyn sylw'n ddi-oed.	2.1	<p>Nid oedd y tîm rheoli'n ymwybodol o'r clwtyn sylweddol o lwydni yn yr ystafell gawod.</p> <p>Mae'r Arweinydd Tîm Dros Dro wedi cysylltu â Chymdeithas Tai Sir Benfro ac wedi ei hysbysu am y gwaith cynnal a chadw a thrwsio mae ei angen.</p> <p>Aseswyd y gwaith cynnal a chadw gofynnol gan Gymdeithas Tai Sir Benfro a chafodd y llwydni ei unioni dros dro ar 18.07.16 roedd angen gwaith pellach ac aethpwyd ar ôl hyn.</p> <p>Bydd yr Arweinydd Tîm Dros Dro yn mynd o amgylch Leoliad 16024 bob wythnos gyda'r prif weithiwr cymorth gofal iechyd i ganfod unrhyw waith cynnal a chadw mae ei angen gan Gymdeithas Tai Sir Benfro.</p>	<p>Arweinydd Tîm Dros Dro</p> <p>Arweinydd Tîm Dros Dro</p> <p>Arweinydd Tîm Dros Dro</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p>

Rhif y Dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
			<p>Bydd yr Arweinydd Tîm Dros Dro'n hysbysu am unrhyw waith mae ei angen ac yn uwchgyfeirio'r problemau a nodir i'r Rheolwr Gwasanaeth a chaiff hyn ei hysbysu trwy gyfarfod rheoli'r gwasanaeth.</p> <p>Yn ogystal, bydd materion cynnal a chadw yn eitem barhaol ar yr agenda yng nghyfarfod staff Leoliad 16024 bob mis.</p> <p>Cymdeithas Tai Sir Benfro i gyflawni'r gwaith cynnal a chadw a nodwyd (yr ystafell ymolchi'n benodol) yn ystod cyfnod o wyliau sydd wedi ei drefnu ar gyfer y tenantiaid yn ystod yr wythnos yn dechrau 3.10.16.</p>	Arweinydd Tîm Dros Dro	Cwblhawyd
11	Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod canllawiau clir ar gael i'r staff ar gyfer anghenion bwyta ac yfed pob defnyddiwr gwasanaeth.	2.5	Mae canllawiau bwyta ac yfed cyfredol ar gyfer pob tenant ar gael ar FACE (Functional Analysis of the Care Environment), y system cofnodion electronig. Fodd bynnag, nid oedd y staff yn gallu eu cynhyrchu ar ddiwrnod yr arolygiad.		

Rhif y Dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
			<p>Mae'r holl staff wedi cael eu hatgoffa o'r canllawiau bwyta ac yfed ar gyfer pob tenant, ac mae copïau papur wedi cael eu rhoi yng nghofnod personol yr unigolion.</p> <p>Hyfforddiant tewychydd i gael ei ddarparu gan Nutilis gyda chymorth therapi lleferydd ac iaith.</p> <p>Bydd canllawiau bwyta ac yfed yn cael eu hysgrifennu ym mhroffil "Dyma Fi" pob tenant.</p> <p>Therapi lleferydd ac iaith i ailasesu sgiliau bwyta ac yfed tenantiaid a diweddarau'r canllawiau yn ôl y gofyn.</p>	<p>Arweinydd Tîm Dros Dro</p> <p>Arweinydd Therapïau</p> <p>Arweinydd Tîm Dros Dro</p> <p>Arweinydd Therapïau</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p>
12	Mae gofyn i'r bwrdd iechyd gynnal asesiad risg llawn a sefydlu polisi lleol ar gyfer y gwasanaeth hwn er mwyn darparu fframwaith diogel ar gyfer y staff, yn enwedig ar gyfer y gweithwyr cymorth sydd angen gweithdrefnau cryno clir i'w dilyn i gefnogi diogelwch y defnyddwyr gwasanaeth.	2.6	<p>Roedd y canllawiau cyfredol oedd ar gael i staff o ddyddiau Ymddiriedolaeth GIG Sir Benfro a Derwen ac er eu bod yn dal yn berthnasol, nid oeddent wedi cael eu hadolygu neu eu diweddarau yn y cyfamser.</p> <p>Roedd cyfarfodydd rheolaidd wedi cael eu cynnal rhwng y Rheolwr Gwasanaeth a'r Uwch-nyrs ar gyfer Rheoli Meddyginiaethau ynglŷn â sut i ddatblygu <i>Canllawiau Cymru Gyfan</i> ar</p>		

Rhif y Dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
			<p><i>gyfer Byrddau Iechyd mewn perthynas â Meddyginiaethau a Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd.</i></p> <p>Mae'r Arweinydd Tîm Dros Dro wedi datblygu dogfen un dudalen i'r staff yn ymwneud â chofnodi gweinyddu meddyginiaeth. Mae staff wedi cael eu gwneud yn ymwybodol o'u swyddogaethau a'u cyfrifoldebau wrth weinyddu meddyginiaeth ac wedi cael eu hatgoffa ohonynt.</p> <p>Mae nyrs gofrestrdig yn bresennol yn rheolaidd ac yn cyfrannu at y gwaith o fonitro gweinyddu meddyginiaeth gan y gweithwyr cymorth gofal iechyd yn yr uned.</p> <p>Mae'r Arweinydd Tîm Dros Dro wedi datblygu dogfen un dudalen i'r staff yn ymwneud â chofnodi gweinyddu meddyginiaeth. Mae staff wedi cael eu gwneud yn ymwybodol o'u swyddogaethau a'u cyfrifoldebau wrth weinyddu meddyginiaeth ac wedi cael</p>	Arweinydd Tîm Dros Dro	Cwblhawyd

Rhif y Dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
			<p>eu hatgoffa ohonynt.</p> <p>Mae nyrs gofrestredig yn bresennol yn rheolaidd ac yn cyfrannu at y gwaith o fonitro gweinyddu meddyginiaeth gan y gweithwyr cymorth gofal iechyd yn yr uned</p> <p>Camau gweithredu a gynlluniwyd</p> <p>Bydd yr Uwch-nyrs ar gyfer Rheoli Meddyginiaethau yn cwblhau asesiad risg ac yn rhannu'r canfyddiadau â'r holl staff.</p> <p>Bydd yr Uwch-nyrs ar gyfer Rheoli Meddyginiaethau yn ysgrifennu Gweithdrefnau Gweithredu Safonol mewn perthynas â dirprwyo cyfrifoldeb i weithwyr cymorth gofal iechyd (o ran rheoli meddyginiaeth).</p> <p>Mae hyfforddiant rheoli meddyginiaeth wedi dechrau a bydd yn cael ei gyflenwi i 100% o'r tîm staff cyn i becyn Hyfforddiant Agored gael ei gymeradwyo.</p>	<p>Uwch-nyrs ar gyfer Rheoli Meddyginiaethau</p>	<p>30.09.16</p> <p>Cwblhawyd</p>
13	Rhaid i'r staff yn y	2.7	Mae cydymffurfiaeth â hyfforddiant yn		

Rhif y Dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	<p>gwasanaeth hwn fod yn gwbl ymwybodol o'r gweithdrefnau diogelu, hawliau dynol a Deddf Galluedd Meddyliol, gyda chymorth hyfforddiant ac addysg, i sicrhau bod y defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu diogelu a bod eu budd gorau'n cael ei warchod bob amser.</p>		<p>cael ei adolygu fel y disgrifiwyd yn yr adran flaenorol ynglŷn â chofnodion hyfforddiant staff.</p> <p>Mae problemau mynediad at y rhwydwaith wedi cael eu datrys ac mae'r holl staff yn awr yn gallu mynd at dudalennau mewnwyd y bwrdd iechyd lle mae polisïau cyfredol yn cael eu cadw. Mae gliniadur wedi cael ei archebu er mwyn i staff gael mynediad mwy hyblyg i'r rhyngwyd.</p> <p>Arweinydd Deddf Galluedd Meddyliol i hyfforddi staff Leoliad 16024 ac i drafod senarios achos yn y cartref gan gynnwys arferion ataliol posibl.</p> <p>Arweinydd Tîm Dros Dro i sicrhau cydymffurfiaeth 100% ymysg y tîm staff â hyfforddiant gorfodol Lefel 1 a 2 mewn Diogelu.</p> <p>Cydymffurfiaeth o 80% erbyn diwedd mis Medi. 100% erbyn diwedd mis Tachwedd.</p> <p>Arweinydd Tîm Dros Dro i sicrhau cydymffurfiaeth 100% ymysg y tîm staff</p>	<p>Arweinydd Tîm Dros Dro</p> <p>Arweinydd Deddf Galluedd Meddyliol</p> <p>Arweinydd Tîm Dros Dro</p> <p>Arweinydd Tîm Dros Dro</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>24.11.2016</p> <p>28.11.16</p> <p>30.09.16</p>

Rhif y Dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
			â hyfforddiant gorfodol mewn Urddas a Pharch.		
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth					
	Gweler uchod ar gyfer gwelliannau sicrwydd ar unwaith				

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras): Julie Denley

Teitl: Cyfarwyddwr Dros Dro Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu

Dyddiad: 20.12.2016